



HELPU'R RHAI SYDD EI ANGEN FWYAF

Os ydych chi'n cael problemau o ran talu eich bil, peidiwch â'u hanwybyddu, mae gennym ni nifer o ffyrdd y gallem ni eu defnyddio i'ch helpu.



RHANNU COST EICH BIL YN RHANDALIADAU DRWY SEFYDLU CYNLLUN TALU

- Gallwch sefydlu **Debyd Uniongyrchol** gan ddefnyddio ein ffurflen Debyd Uniongyrchol ar-lein (rhandaliadau blynyddol, bob hanner blwyddyn, misol neu wythnosol ar gael).
- Os byddai'n well gennych dalu drwy gerdyn talu gallwch drefnu hyn drwy ddefnyddio ffurflen cerdyn talu ar-lein.

Os ydych chi'n talu mewn rhandaliadau yn barod ac yn dal i gael trafferthion, peidiwch ag anwybyddu unrhyw broblemau. Edrychwch ar y cynlluniau eraill isod.



FFYRDD I WNEUD EICH BIL DŴR YN FWY FFORDDIADWY

- Mae ein tariff **HelpU** yn gosod costau ar gyfradd fforddiadwy ar gyfer aelwydydd incwm isel sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd.
- Mae ein cynllun **WaterSure** Cymru yn capio eich bil ar uchafswm o £343 a allai leihau eich bil.
- Talu eich costau dŵr yn awtomatig drwy eich budd-daliadau gyda'n cynllun **Dŵr Uniongyrchol** ac fe wnawn ni leihau eich bil £25!
- Mae'r **Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid** yn rhoi rhandaliadau fforddiadwy chi ac yn clirio eich dyled.



GWASANAETHAU Â BLAENORIAETH

Rydym am sicrhau ein bod yn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i bob un o'n cwsmeriaid, bob amser. Os oes gennych ofnion penodol oherwydd eich oedran, iechyd, cyflwr meddygol neu ofnion cyfathrebu ychwanegol, cofrestrwch gyda ni fel y gallwn helpu i addasu ein gwasanaethau i ddiwallu eich anghenion. Rydym yn deall nad yw sefyllfa nac anghenion pawb yr un fath, ac felly gall ein Gwasanaethau â Blaenoriaeth eich helpu.

I gysylltu â ni



Ewch i'n gwefan
www.dwrcymru.com



neu ffonio
0800 052 6058

